28 Teras Cathays
Caerdydd
CF26 1EB

XYZ Energy Solutions
2 Bond Street
Birmingham
B1 9AT

2 Tachwedd 2024

Annwyl Reolwr Recriwtio,

Rwy’n fyfyriwr uchelgeisiol yn yr ail flwyddyn yn astudio BEng Peirianneg Drydanol ym Mhrifysgol Caerdydd ac rwy'n ysgrifennu i wneud cais am y Lleoliad Peirianneg Drydanol yn XYZ Energy Solutions. Mae gen i wybodaeth ddamcaniaethol o'r sector, sgiliau ymarferol sy'n ymwneud â'r rôl a'r sgiliau trosglwyddadwy i lwyddo mewn awyrgylch proffesiynol.

Rwy'n frwdfrydig am wneud y lleoliad gwaith Peirianneg Drydanol yma oherwydd ei fod yn cynnig cyfle unigryw i roi fy ngwybodaeth academaidd ar waith i heriau'r byd go iawn yn y sector ynni. Mae gen i sgiliau technegol cadarn drwy gwblhau gwaith cwrs mewn systemau pŵer, ynni adnewyddadwy a pheirianneg foltedd uchel, a dwi’n awyddus i roi’r ddealltwriaeth ddamcaniaethol yma ar waith yn ymarferol. Mae gweithio ar brosiectau blaengar ym maes trosglwyddo a dosbarthu, cynhyrchu pŵer, ynni adnewyddadwy, a phŵer niwclear yn cyd-fynd yn berffaith â'm dyheadau o ran gyrfa, i gyfrannu at atebion ynni cynaliadwy a dibynadwy.

Mae XYZ Energy Solutions yn apelio i fi oherwydd ei ymrwymiad i arloesedd a chynaliadwyedd yn y diwydiant ynni. Mae enw da'r cwmni am roi atebion dibynadwy o safon trwy arferion peirianneg uwch yn cyd-fynd a’m gwerthoedd a'm hamcanion proffesiynol. Bydd cael y cyfle i weithio gyda pheirianwyr profiadol a rheolwyr prosiect mewn awyrgylch cydweithredol nid yn unig yn mynd i wella fy sgiliau technegol, ond yn meithrin datblygiad proffesiynol. Rwy'n edrych ymlaen at gael y cyfle i gyfrannu at brosiectau sy’n cael effaith ac i fynd i’r afael a’r anghenion ynni esblygol yn y gymdeithas.

Drwy gydol fy ngradd, rwyf wedi datblygu’r wybodaeth ddamcaniaethol a’r sgiliau ymarferol sy’n berthnasol i’ch lleoliad. Rwy wedi datblygu gwybodaeth yn y cysyniadau sylfaenol sy’n gysylltiedig â chynhyrchu pŵer, trosglwyddo a dosbarthu, gan gynnwys cynhyrchu pŵer, trosglwyddo a dosbarthu, gan gynnwys dadansoddi peiriannau trydanol, systemau pŵer, ac electroneg pŵer yn ystod y modiwl Peirianneg Pŵer Trydanol. Rwy hefyd wedi astudio pynciau sy'n ymwneud ag amrywiaeth o dechnolegau ynni adnewyddadwy ac wedi cwblhau gwaith cwrs ar solar, gwynt, dŵr a biomas, gan gynnwys eu dylunio/cynllunio, eu gweithredu a'u cyfuno i systemau pŵer.

Yn dilyn fy mhrofiad yn gweithio’n weinydd bar, Llysgennad STEM, a gwirfoddoli gyda’r Caffi trwsio mae gen i sgiliau gwerthfawr sy’n berthnasol i’r swydd. Mae fy mhrofiad gwasanaeth i gwsmeriaid yn dangos fy mod yn gallu cyfathrebu’n effeithiol a datrys problemau, sy’n hanfodol i gyd-weithio gydag aelodau o’r tîm a chleientiaid. O ganlyniad i fy mhrofiad yn Llysgennad STEM, rwy wedi tynnu sylw at fy sgiliau cyfathrebu drwy gynnal gweithdai a meithrin agwedd brwdfrydig tuag at bynciau technegol. Mae fy mhrofiad yn y Caffi Trwsio yn dangos fy mod i’n ymroddgar i gynaliadwyedd ac i weithio mewn tîm. Mae'r profiadau hyn yn dangos fy mod i’n gallu addasu, cyfathrebu, a datrys problemau, a dangos fy mod i’n ymroddgar i gynaliadwyedd, ac mae pob un ohonyn nhw’n berthnasol iawn i ofynion y maes peirianneg.

Rwy'n gobeithio bod y llythyr eglurhaol hwn wedi cyfleu fy niddordeb, a fy addasrwydd ar gyfer y rôl hon. Fe gewch yn amgaeedig CV sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth am fy sgiliau, fy ngwybodaeth a fy mhrofiad. Diolch i chi am roi o’ch amser.

Yn gywir,

**Joanna Harris**